# 12 Sgam y Nadolig

**(byddwch yn wyliadwrus!)**

1. Gwefannau ffug
2. Sgamiau Cefnogaeth TG
3. Elusennau ffug
4. Sgamiau ad-daliadau
5. E-byst gwe-rwydo
6. Sgamiau Cardiau Rhodd
7. Sgamiau Brexit
8. Sgamiau COVID-19
9. Sgamiau ffôn
10. Sgamiau e-gardiau
11. Perthynas ffug
12. Sgamiau siopa

Cyngor Abertawe
Swansea Council

*Peidiwch â gadael i droseddwyr ddinistrio'r Nadolig*

Ffrindiau yn erbyn SGAMIAU

Cliciwch yma i ymuno!

**Cyngor Abertawe - yn gweithio gydag Action Fraud, Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'r Ffrindiau yn erbyn Sgamiau**

# Ar ddeuddeg dydd y Nadolig, meddai Cyngor Abertawe wrtha i...

## 1. Gwefannau ffug

Ydych chi'n defnyddio'r we i brynu anrhegion Nadolig? Mae troseddwyr yn creu gwefannau ffug sy'n edrych yn union fel y rhai go iawn er mwyn dwyn eich manylion personol a'ch arian. Sicrhewch fod "***https***" ar ddechrau cyfeiriad y wefan a bod y ddelwedd o'r clo yno.

## 2. Sgamiau Cefnogaeth TG

Gallai sgamiau cefnogaeth TG fod yn alwad ffôn neu'n e-bost sy'n datgan bod rhywbeth o'i le gyda'ch cyfrifiadur ac mae angen ei drwsio. Byddant yn ceisio eich cyfeirio at wefan ffug. Ni fydd cwmnïau fel Microsoft ***BYTH*** yn eich ffonio.

## 3. Elusennau ffug

Cadwch lygad am droseddwyr sy'n defnyddio enw elusen go iawn ac sy'n apelio ar ei rhan am rodd. Os ydych yn amau unrhyw un, gofynnwch i weld cerdyn hunaniaeth swyddogol yr elusen y mae'n orfodol iddo ei gario. ***YMDDIRIEDWCH*** yn eich greddf!

## 4. Sgamiau ad-daliadau

Efallai y byddwch yn derbyn e-bost neu neges gan rywun sy'n esgus ei fod yn gweithio i'r cyngor neu siop adnabyddus sy'n addo ad-daliad credyd neu dreth, a'r cyfan sydd angen i chi ei wneud yw clicio er mwyn hawlio'r arian yn ôl. Byddant yn gofyn am eich manylion banc. ***PEIDIWCH Â RHOI EICH MANYLION!***

## 5. E-byst gwe-rwydo

Mae troseddwyr yn anfon e-byst sy'n ymddangos fel rhai go iawn i'ch annog i glicio ar y ddolen a fydd yn eich arwain at wefan ffug, neu atodiad sy'n gosod feirws ar eich peiriant. Byddant yn achosi i chi gael panig ac yn rhuthro'ch penderfyniad. ***MEDDYLIWCH*** cyn clicio!

## 6. Sgamiau Cardiau Rhodd

Ydych chi wedi derbyn e-bost gan ffrind yn gofyn i chi brynu cardiau rhodd iddyn nhw? Mae troseddwyr yn esgus bod yn bobl rydych chi'n eu hadnabod er mwyn eich cael chi i wneud hyn. Maent yn chwilio am y côd ar y cerdyn er mwyn gwario'r arian. ***PEIDIWCH Â GWNEUD HYN***

## 7. Sgamiau Brexit

Mae troseddwyr yn cysylltu â dioddefwyr ac yn awgrymu eu bod yn gwneud buddsoddiad 'dim colled' i helpu i fanteisio ar Brexit. Maent hefyd yn esgus bod yn swyddogion Cyllid a Thollau EM i gael taliadau gan fusnesau er mwyn cofrestru ar gyfer masnachu. ***PEIDIWCH Â GWNEUD HYN***

## 8. Sgamiau COVID-19

Wedi derbyn galwad ffôn gan Gyngor Abertawe sy'n dweud eich bod wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n bositif am COVID-19? Byddwn yn darparu cyngor ac yn gofyn rhai cwestiynau personol i chi, fel gofyn am eich cyfeiriad. ***NI FYDDWN*** yn gofyn am fanylion ariannol.

## 9. Sgamiau ffôn

Mae troseddwyr yn eich ffonio i drafod pwnc ac yna'n gofyn i chi wasgu botwm ar fysellbad eich ffôn i "dynnu nôl" o arolwg, er enghraifft. Bydd yn creu ffïoedd eithriadol y bydd y troseddwyr yn elwa ohonynt. ***PEIDIWCH Â GWNEUD HYN***

## 10. Sgamiau e-gardiau

Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio'r cardiau rydych yn eu derbyn ar-lein. Gallent fod yn cynnwys feirws a all gau eich dyfais lawr a byddwch yn cael eich bygwth am arian er mwyn adfer eich ffeiliau. Gosodwch feddalwedd ***gwrthfeirws*** a fydd yn eich rhybuddio os bydd hyn yn digwydd!

## 11. Perthynas ffug

Ydych chi'n chwilio am gariad ar-lein? Mae troseddwyr yn. Mae'r berthynas yn datblygu dros amser ac mae'r unigolyn yn cael ei annog i dalu arian i'r troseddwr - ***PEIDIWCH Â GWNEUD HYN.*** Maen nhw hefyd yn ceisio dwyn eich hunaniaeth. Byddwch yn ddiogel.

## 12. Sgamiau siopa

Ydych chi'n dwlu ar frandiau mawr am brisiau isel? Byddwch yn wyliadwrus o ran nwyddau ffug. Mae'r rhain yn amrywio o ddillad o ansawdd gwael i offer trydanol peryglus nad ydynt yn cydymffurfio â deddfau diogelwch. Os yw'n ymddangos yn rhy ***dda i fod yn wir,*** mae'n debyg ei fod.

# Adrodd am droseddwyr a chyngor pellach

## Os ydych chi am adrodd am dwyll neu seiberdroseddu, cysylltwch ag Action Fraud.

- Os ydych chi'n dioddef sgam, rhowch wybod i Action Fraud drwy e-bostio www.actionfraud.police.uk
- Os ydych yn fusnes, yn elusen neu'n sefydliad sy'n dioddef o seiber-ymosodiad ar hyn o bryd, ffoniwch Action Fraud ar – **0300 123 2040**

## Os hoffech chi gael rhagor o gyngor ac arweiniad ar seiberddiogelwch, cysylltwch â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol

Tra mae Action Fraud yn ymdrin ag adrodd am seiber-droseddau, mae'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn sefydliad ar wahân sy'n darparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar seiberddiogelwch er mwyn helpu i sicrhau mai'r DU yw'r lle mwyaf diogel i fyw a gweithio ar-lein ynddo. Bydd yn helpu i'ch diogelu chi a'ch teulu a'r dechnoleg rydych chi'n ei dibynnu arni.

Mae seiberddiogelwch yn bwysig am fod ffonau clyfar, cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd bellach yn rhan sylfaenol o fywyd modern, a dyna pam ei bod hi'n anodd dychmygu sut y byddem yn gweithredu hebddynt. O fancio a siopa ar-lein i e-bostio a defnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn gwneud popeth y gallwn i atal y seiber-droseddwyr rhag cael gafael ar ein cyfrifon, ein data a'n dyfeisiau. **Ydych chi'n cael problemau gyda'r canlynol? Gall y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol eich cynghori ynghylch y canlynol:**

- Mae rhywun wedi hacio fy nghyfrif e-bost. Rwy'n poeni bod rhywun wedi dwyn fy manylion banc.
- Mae gen i faleiswedd (meddalwedd faleisus) ar fy nyfais. A ddylwn i dalu arian i ddatgloi fy nghyfrifiadur?

**Ewch i wefan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn** https://www.ncsc.gov.uk
Os ydych chi'n poeni am e-bost rydych chi wedi'i dderbyn sy'n gofyn am wybodaeth sensitif neu'n eich annog i ymweld â gwefan ffug neu'n eich bygwth gyda fideo sydd ganddynt ohonoch chi, anfonwch y manylion ymlaen at y Ganolfan Seiberddiogelwch Gendelaethol yn- report@phishing.gov.uk

## Oes angen cyngor neu arweiniad lleol arnoch?

Mae adran Safonau Masnach Cyngor Abertawe yma i helpu ein preswylwyr a'n busnesau drwy ddarparu cyngor ac arweiniad ar sgamiau, troseddau stepen drws, masnachu ar y stryd etc. Ewch i'n gwefan: https://www.abertawe.gov.uk/safonaumasnach